Abertawe
Y Ddinas
ar y
Traeth

# Porth Copr: ardal fusnes fodern, yng nghanol y ddinas, ychydig funudau o'r traeth.

urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council

## Cyflwyniad

# Mae Porth Copr yn fwy nag ardal fusnes ganolog Abertawe. Mae'n rhan bwysig o drawsnewidiad Abertawe - rhywle lle mae busnes, arloesi, dysgu a diwylliant yn dod ynghyd i greu marchnad ar gyfer cyfnewid ac arloesi. Wedi'i adeiladu ar safle pyrth canoloesol y ddinas, mae'n gwasanaethu fel porth i ddyfodol y ddinas - cymdogaeth fywiog, defnydd cymysg, wedi'i gwreiddio ym mywyd bob dydd y ddinas.

Rhan o'r stori yn unig yw gwaith ym Mhorth Copr. Mae'n le i fyw a gweithio yng nghanol y ddinas - lle mae patrymau bywyd bob dydd yn gweithio'n gytûn. Gallwch ddechrau'r diwrnod trwy fynd i nofio neu wneud sesiwn yn y gampfa, cwrdd â ffrind am goffi ar eich ffordd i'r swyddfa, a mwynhau cinio ar y traeth neu mewn un o'r caffis gerllaw. Mae popeth o fewn cyrraedd, felly bydd y ddinas yn dod yn estyniad o'ch diwrnod yn hytrach na bod yn le rydych yn ei adael ar eich ôl. Bydd byw yn ein cymdogaeth fywiog, defnydd cymysg, yn golygu y gallwch anghofio am gymudo bob dydd a bydd gennych fwy o amser i wneud y pethau pwysig. Wrth iddi nosi, mae'r cyflymdra'n newid, ond mae'r egni'n parhau - arhoswch am bryd o fwyd, cwrdd â ffrindiau, neu gael amser i ymlacio. Mae'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn teimlo'n ddiymdrech ym Mhorth Copr: yn gysylltiedig, yn gymdeithasol ac yn llawn naws Abertawe. Mewn byd newydd lle gall pobl fyw ym mha le bynnag y maent yn dymuno a gweithio o unrhyw le, pam ddim byw a gweithio yn y Ddinas ar y Traeth?

Mae Porth Copr yn cynnig cyfle sylweddol i fuddsoddwyr. Mae'n angori'r weledigaeth ehangach ar gyfer Abertawe: Y Ddinas ar y Traeth, rhaglen adfywio sy'n ail-lunio canol y ddinas ac yn datgloi gwerth hirdymor.

Bydd y datblygiad trefol hwn sydd wedi'i ddylunio gan rai o benseiri blaenllaw yn y DU a'i adeiladu i'r safonau cynaliadwyedd uchaf, yn enghraifft o ddatblygiad gwydn, sy'n canolbwyntio ar bobl ac wedi'i ddiogelu at y dyfodol.

Mae Porth Copr yn cynnig amgylchedd gweithio unigryw i feddianwyr. Mae saith adeilad o'r radd flaenaf yn rhan annatod o wead y ddinas gyda sgwariau cyhoeddus, strydoedd prysur a mannau gwyrdd - a'r cyfan dim ond pum munud ar droed o'r traeth. Yma, bydd llesiant a chynhyrchiant yn mynd law yn llaw, wedi'i gefnogi gan gysylltedd rhagorol, amwynderau cymunedol bywiog, ac egni dinas sydd ar i fyny.

**Llun o'r awyr - delweddu drwy gyfrifiadur gan Virtual Planet →**



# Yn ôl mewn busnes

## Porth Copr yw ardal fusnes newydd Abertawe - gweithle modern yng nghanol dinas fywiog, ychydig funudau o'r traeth.

Bydd Porth Copr yn cynnwys saith adeilad unigryw a chynaliadwy wedi'u dylunio gan benseiri blaenllaw yn y DU. Bydd y datblygiad yn darparu 375,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr, gyda'r posibilrwydd o hyd at 400,000 troedfedd sgwâr wrth i'r uwchgynllun ddatblygu. Bydd swyddfeydd a lleoedd gweithio'n ganolbwynt i'r ardal, wedi'u hategu gan unedau manwerthu, hamdden a lletygarwch ar y lloriau gwaelod a bydd cartrefi newydd yn dod â bywyd a gweithgarwch drwy gydol y dydd. Bydd y defnyddiau hyn gyda'i gilydd yn creu cymdogaeth hyblyg, sy'n barod ar gyfer y dyfodol, ac wedi'i gwreiddio mewn canol dinas gwydn, defnydd cymysg.

**Mae Abertawe yn ôl mewn busnes**
Mae PWC wedi enwi Abertawe ymhlith y dinasoedd sy'n perfformio orau yn y DU a'r Sunday Times yn rhestru'r ddinas fel un o'r lleoedd gorau i fyw yn y DU. Amseru yw popeth ac ni allai'r amseru fod yn well: gydag adfywiad gwerth £1 biliwn eisoes ar y gweill, bydd Porth Copr yn rhan flaenllaw o ddinas sydd ar i fyny. Mae Porth Copr yn beiriant i yrru ffyniant yn y dyfodol ac yn angor ar gyfer y weledigaeth o Ddinas ar y Traeth. Mae canolbwynt ar gynaliadwyedd a gwydnwch fel prif ysgogwyr - yn cynnwys uwch dechnolegau adeiladu gwyrdd, gwydnwch hinsawdd a lleoedd gweithio y gellir eu haddasu - yn gwneud Porth Copr yn fuddsoddiad cadarnhaol i'r dyfodol a fydd yn gynnig gwerth hirdymor.





## Yn bwysicach na dim, bydd Porth Copr yn dod â chreadigrwydd, dysgu a menter ynghyd mewn un lle. Bydd cyflogwyr, addysgwyr, busnesau newydd, pobl greadigol a sefydliadau yn cymysgu, yn rhannu syniadau ac yn creu ffyniant - ffyniant wedi'i wneud yn Abertawe.

Urban Splash Sheffield, Park Hill ↓



# Dychwelyd i’r swyddfa





↑ Urban Splash, Tea Factory & Vanilla Factory

↓ Urban Splash Sheffield, Park Hill



**“Yn yr oes gweithio gartref, mae’n rhaid i swyddfeydd gynnig mwy. Nid yw cynnig lle i ddesgiau yn ddigon da bellach, rhaid cynnig lle sy’n cefnogi llesiant, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a chysylltiad dynol.”**

McKinsey, Returning to the Office
(Medi 2022)


Rhaid i’r gweithle newid. Rhaid iddo fod yn le lle mae pobl eisiau bod, nid yn le y mae’n rhaid iddynt fynd iddo. Mae hynny’n golygu cefnogi’r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, galluogi cysylltiad dynol, a chynnig profiadau na ellir eu cael wrth eistedd wrth fwrdd y gegin. Mae’r swyddfeydd gorau heddiw yn lleoedd sy’n byrlymu â syniadau, yn ennyn ysbrydoliaeth o’r ddinas, ac yn cynnig symudiad rhwydd - o drafnidiaeth i strydoedd sy’n hygyrch i gerddwyr - sy’n golygu bod pobl yn fodlon cymudo. Mae mynediad at natur yr un mor bwysig: goleuni naturiol, awyr iach, planhigion wedi’u plannu yn y cyrtiau a mannau gwyrdd sy’n lleihau straen ac yn gwella llesiant. Dyluniwyd Porth Copr gyda hynny mewn golwg: lle bywiog, cymdeithasol, sy’n cynnig cydbwysedd ac yn byrlymu â phosibiliadau a chyfleoedd i gyfnewid.

Mae’r datblygiad hwn yn fwy na chasgliad o adeiladau newydd, mae’n rhan fyw o’r ddinas ei hun. Mae’n rhan annatod o strwythur dinesig Abertawe ac yn le croesawgar, agored a chysylltiedig. Daw caffis, busnesau lletygarwch a mannau gwyrdd â’r ardal gyhoeddus yn fyw. Mae’r gymysgedd o ddefnyddiau cyhoeddus, preifat, addysgol a chreadigol yn sicrhau nad yw unrhyw ddau ddiwrnod byth yn teimlo’r un fath. Dyma ardal lle mae cyfarfod ar hap yn bwysig, lle mae cydweithio yn cael ei annog, a lle mae gwaith yn cael ei gyfoethogi gan yr amgylchedd gweithio.

Yn fwy nag ardal fusnes newydd, arloesol, mae Porth Copr yn fodel ar gyfer gweithio yn y dyfodol, ac yn caniatáu i lesiant a chynhyrchiant gydweithio. Yma, bydd y gwaith, y ddinas a bywyd yn dod at ei gilydd mewn un lleoliad hyblyg. Mewn oes lle mae pobl yn gofyn pam y dylent adael eu cartrefi i fynd i’r swyddfa i weithio, mae Porth Copr yn cynnig ateb argyhoeddiadol.

# Dinas ar y Traeth

↓ Glannau Abertawe




## Mewn oes lle gall pobl fyw a gweithio bron yn unrhyw le, pam ddim dewis y Ddinas ar y Traeth?

Nid oes gan bob dinas draeth - mae traeth Abertawe yn hirach na thraethau Brighton a Barcelona gyda'i gilydd. Wrth gwrs, mae traeth yn rhywbeth 'neis i'w gael', ond mae'n lawer mwy na hynny. Mewn cystadleuaeth fyd-eang i gadw'r bobl orau, i ddenu'r swyddi gorau a chynnig yr ansawdd bywyd gorau, mae gan Abertawe rhywbeth na all dinasoedd eraill ei gynnig. Dim ond Abertawe all gynnig traeth tywodlyd pum milltir o hyd sy'n rhedeg o flaen canol y ddinas. Abertawe yw'r Ddinas ar y Traeth.

Dinas ar y Traeth yw gweledigaeth ar y cyd Urban Splash a Chyngor Abertawe. Gweledigaeth sy'n dathlu cyfuniad unigryw'r ddinas o fywyd trefol a harddwch naturiol. Yn ogystal â'r traeth, mae tirweddau sydd ag arwyddocâd cenedlaethol yn amgylchynu'r ddinas - Penrhyn Gŵyr, Bannau Brycheiniog, Cwm Tawe a Sir Benfro ymhellach draw. Wrth galon hyn i gyd mae dinas fywiog, gryno, hygyrch i gerddwyr sy'n canolbwyntio ar iechyd, llesiant a chynaliadwyedd.

Mae Porth Copr yn rhan hanfodol o'r darlun mawr hwn. Fel un o saith safle strategol, mae'n ffurfio prif ardal fusnes Abertawe sydd wedi'i lleoli yng nghanol y ddinas. Mae gan y safle gysylltiad uniongyrchol ag ardal newydd y Glannau trwy Ffordd i'r Môr, llwybr sy'n cysylltu'r ardal fusnes a chanol y ddinas â'r traeth. Mae'r nodau adfywio hyn yn cael eu rhannu ar draws pob safle: gwneud y mwyaf o asedau unigryw Abertawe, gwella ardaloedd cyhoeddus, darparu cymdogaethau cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar bobl, a chynnig gwerth trwy ddiwylliant, treftadaeth a dylunio. Porth Copr yw angor masnachol y strategaeth hon - ardal ddinas fodern wedi'i gwreiddio ym mywyd trefol ac sydd â chysylltiad dwfn â'i lleoliad naturiol.

**Ni ac Abertawe**
Mae'r bartneriaeth adfywio rhwng Urban Splash a Chyngor Abertawe yn dechrau gyda saith safle strategol. Ynghyd â datblygiadau eraill, rhai mawr a bach, maent yn ffurfio darnau coll y jig-so sydd o'u rhoi at ei gilydd yn arwain at drawsnewid y ddinas gyfan. Mae record 30 mlynedd lwyddiannus Urban Splash o drawsnewidiadau trefol ar raddfa fawr yn cynnig gwybodaeth a phrofiad i'r bartneriaeth. Fodd bynnag, nid yw bod yn arbenigwyr adfywio yn ymwneud â chael yr atebion i gyd, mae'n ymwneud â dod o hyd i'r bobl a'r partneriaid i helpu i gynnig datrysiadau cadarn sy'n gwneud synnwyr, oherwydd eu bod yn ddatrysiadau sydd wedi'u creu yn Abertawe.

# Dinas ar gynnydd

Mae gan Abertawe bopeth sydd ei angen ar ddinas - a'r cyfan o fewn pellter cerdded. Mae'r ddinas yn cyrraedd safon aur o ran dinas sy'n well i bobl a'r blaned. O orsaf drenau Abertawe i Lwybr Arfordir Cymru cyn pen 20 munud, o'r gwaith i'r farchnad, y marina neu'r arena cyn pen 10 munud, o ganol y ddinas i'r traeth mewn dim o dro. Gallwch feicio i gefn gwlad agored yn ystod eich amser cinio, nofio yn y môr ar ôl yr ysgol neu fwynhau cyngerdd heb orfod talu am dacsi. Gall ddod o hyd i gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith fod yn anodd mewn dinasoedd mawr - mae'n hawdd yn Abertawe.

Mae Abertawe'n dod i'r amlwg fel un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru, ac yn denu mewnfuddsoddi a chyfleoedd newydd. Cyrhaeddodd y ddinas y drydydd safle yn rhestr y Sunday Times yn 2025 o "leoedd sydd ar gynnydd", gan ennill canmoliaeth am ei hadfywiad, diwylliant a'i hegni.

Mae Porth Copr sydd wedi'i lleoli yng nghanol Abertawe ac yn sefyll ar safle canol dinas ardderchog. Mae wedi'i lleoli mewn lle perffaith i elwa ar adfywiad trefol, cysylltiadau trafnidiaeth a dwysâd canol y ddinas. Wrth i Abertawe atgyfnerthu ei rôl fel dinas arloesi, bydd Porth Copr yn dod yn ganolbwynt ar gyfer cyfalaf, talent a thwf.

Bydd buddsoddwyr yn cael eu denu i ddinas sy'n cydbwyso uchelgais a lle braf i fyw ynddo. Mae yna raglenni adfywio cryf gwerth dros £1 biliwn, partneriaethau cynyddol rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus a gweledigaeth ar gyfer bywyd dinesig cynaliadwy.

Yn ddemograffig, mae Abertawe yn cynnig sylfaen poblogaeth gytbwys: cymuned myfyrwyr sylweddol, apêl yr arfordir i bobl broffesiynol a dwysedd trefol sy'n esblygu. O ystyried dangosyddion economaidd sy'n gwella a phiblinell datblygu'r ddinas, mae Porth Copr mewn sefyllfa dda i roi gwerth hirdymor.

**1 biliwn+** — gwerth y rhaglen adfywio sydd ar y gweill ar draws y ddinas

**2 filiwn** — o bobl yn byw o fewn pellter cymudo o awr

**600,000** — o bobl yn byw o fewn pellter cymudo o 30 munud

**29,000** — o fyfyrwyr yn astudio mewn dwy brifysgol, sy'n cyflenwi sgiliau, arloesi a thalent graddedigion

**90%** — o gartrefi a busnesau eisoes gyda band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit

**5** — milltir o bromenâd a thraeth tywodlyd

**50+** — o barciau a gerddi, ynghyd â Phenrhyn Gŵyr (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU) ar stepen eich drws

**3,500** — y nifer o seddi yn Arena Abertawe sydd drws nesaf

# Bywyd dinas + harddwch naturiol


















Mae Abertawe yn ddinas fywiog, dynn lle mae diwylliant, bwyd, chwaraeon, siopa a hamdden i gyd o fewn cyrraedd hawdd. Mae ei graddfa yn ei gwneud yn gerddadwy a dynol, ac eto mae'n llawn bywyd, o wyliau ar y glannau i fywyd pob dydd yn ei chaffis, bwytai a siopau annibynnol. Yn ddinas lle mae bywyd gwaith a bywyd cymdeithasol yn gorgyffwrdd yn naturiol, gan greu rhythm trefol sy'n llawn bywyd o fore gwyn tan nos. Mae Porth Copr yn ganolbwynt i'r cyfan.

Nid cilfach ynysig mo'r ardal fusnes newydd hon, ond yn hytrach rhan hanfodol o fywyd y ddinas, sy'n rhan annatod o'i strydoedd a'i sgwariau. Gyda phoblogaeth ganol dinas sydd ar fin tyfu a'i chymuned breswyl ei hun ar y safle, bydd yn le lle mae gwaith a gweithwyr yn rhan o dwf Abertawe ac yn helpu i gefnogi'r ddinas ehangach ac economi'r gymdogaeth.

Mae Porth Copr yn lle i bobl ddod ynghyd - i fyw, gweithio, cyfnewid syniadau a mwynhau'r ddinas. I fuddsoddwyr mae'r bywiogrwydd hwn yn sail i werth. Mae byw yng nghanol y ddinas ar gynnydd, mae'r galw am weithleoedd yn newid, ac mae agosrwydd at ddiwylliant ac amwynderau yn meithrin gwydnwch yn y farchnad. Bydd buddsoddwyr Porth Copr yn rhan o drawsnewidiad a fydd yn diffinio dyfodol Abertawe ac yn sicrhau elw hirdymor.

# Yr Uwchgynllun

## Amlswyddogaethol

Mae rhwydwaith newydd o strydoedd, cyrtiau a gerddi o fewn Porth Copr yn cysylltu'n ddi-dor â Stryd Rhydychen, Sgwâr y Castell a'r parc arfordirol, gan greu lleoedd sy'n gwasanaethu pobl a natur gyda'i gilydd.

## Wedi'i addasu ar gyfer newid hinsawdd

Mae llwybrau cysgodol, plannu sy'n amsugno glaw a draenio cynaliadwy wedi'u hymgorffori ar draws yr uwchgynllun, gan helpu'r ardal fusnes newydd i aros yn oerach, yn fwy gwyrdd ac yn fwy gwydn i bwysau hinsawdd yn y dyfodol.

## Iach

Mae Ffordd i'r Môr a'r sgwâr canolog newydd wedi'u dylunio i flaenoriaethu cerdded, beicio a chymdeithasu, gyda mannau gwyrdd sy'n annog cymryd seibiant, chwarae a llesiant bob dydd.

## Bioamrywiaeth

Mae plannu ledled y safle, yn cynnwys mynwentydd wedi'u gwella a chynefinoedd bach newydd, yn cefnogi adar, peillwyr a bioamrywiaeth drefol yng nghanol Abertawe.

## Clyfar a Chynaliadwy

Mae mwy o le i gerddwyr, llai o geir a thoeau gwyrdd yn gwneud Porth Copr yn feincnod ar gyfer datblygiad carbon isel ac effeithlon o ran adnoddau yng nghanol y ddinas.



The Fford i'r môr connects City Waterfront to Porth Copr via Swansea Arena ↓




Mae adeiladau'n bwysig. Mae adeiladau hanesyddol yn rhoi cymeriad i ddinasoedd, tra gall pensaernïaeth newydd feiddgar hybu hyder a newid canfyddiadau. Ond dim ond fframwaith bywyd trefol yw adeiladau ar eu pen eu hunain. Yr hyn sy'n gwneud i ddinas ffynnu yw'r pethau sy'n digwydd o fewn ac o gwmpas adeiladau: byw, creu, masnachu, dysgu a chydweithio. Mae adfywio yn ymwneud â galluogi'r pethau hyn i ffynnu — creu cyfleoedd i bobl wneud eu gwaith gorau, ar bob graddfa o faristas i'r ystafell fwrdd.


Wedi'i leoli wrth gyffordd calon ddinesig, ddiwylliannol a masnachol Abertawe, mae'r uwchgynllun yn cysylltu'n uniongyrchol â grid y ddinas, gan ymestyn strydoedd presennol a chreu sgwariau newydd sy'n cysylltu'n ddi-dor â Marchnad Abertawe, Arena Abertawe a Glannau'r Ddinas trwy Ffordd i'r Môr. Nid cilfach yw'r ardal hon, ond yn hytrach rhan hanfodol o'r ddinas — wedi'i chynllunio i deimlo'n agored, yn groesawgar ac yn gysylltiedig.

Mae strategaeth tirwedd yr uwchgynllun yn adeiladu ar ddull cydgysylltiedig, ledled y ddinas, gyda pharth cyhoeddus hael a mannau gwyrdd helaeth. Mae'n creu rhwydwaith cydlynol o strydoedd a chyrtiau sy'n gwahodd pobl i ymgynnull, hamddena a rhyngweithio.

Mae dylunio sensitif o amgylch Mystwyr Abertawe yn dathlu ei bresenoldeb yng nghanol y ddinas — yn gwella ei leoliad ac yn sicrhau bod yr ardal newydd yn tyfu'n naturiol o graidd hanesyddol y ddinas.

Bydd Porth Copr yn le sy'n cynnig cyfle gwirioneddol — bydd yn dwyn ynghyd swyddfeydd, addysg, busnesau newydd a chartrefi newydd mewn un gymdogaeth gysylltiedig. Bydd yn helpu Abertawe i gadw a denu talent: mae'n ddinas sy'n adnabyddus am ei chreadigrwydd, ei menter a dyfeisgarwch ei phobl. Mae hon yn ddinas sydd wedi'i llunio gan fasnach a chyfnewid, sy'n hyderus wrth edrych tuag allan ond eto wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn ei chymuned.

Mae gan Abertawe lawer i'w ddathlu eisoes — busnesau annibynnol, diwylliant a lletygarwch — ond mae mwy o'r pethau sy'n bwysig yn cyfrannu at ganolfan gryfach a mwy bywiog. Mae Porth Copr yn gam mawr tuag at gyflawni'r dyfodol hwnnw: ardal greadigol a busnes sy'n gosod swyddi, syniadau a masnach wrth wraidd dinas y gellir byw ynddi. Drwy osod gwaith a gwasanaethau yn y canol, mae'n cryfhau'r stryd fawr, yn cefnogi busnesau annibynnol ac yn adeiladu'r sylfaen ar gyfer ffyniant hirdymor.




← Llun o'r awyr - delweddu drwy gyfrifiadur gan Virtual Planet

**Allwedd**

**1 Porth Copr**
Wedi'i gynllunio fel adeilad ar gyfer swyddfeydd Gradd A 54,500 troedfedd sgwâr wedi'i leoli yng nghyfeiriad busnes gorau Abertawe.

**2 Porth Copr**
Adeilad 53,800 troedfedd sgwâr ar gyfer swyddfeydd wedi'i leoli yn y porth i ganol y ddinas.

**3 Porth Copr**
Adeilad defnydd cymysg 46,200 troedfedd sgwâr sy'n cael ei gynnig ar gyfer swyddfeydd Gradd A yn bennaf, ond mae potensial ar gyfer defnyddiau preswyl ac addysgol ychwanegol. Wedi'i leoli ar y prif lwybr i gerddwyr i Arena newydd Abertawe.

**4 Porth Copr**
Adeilad 51,700 troedfedd sgwâr yn bennaf ar gyfer swyddfeydd Gradd A, ond mae potensial ar gyfer defnydd preswyl, iechyd ac unedau bwyd a diod ar y llawr gwaelod. Mae'r adeilad wedi'i leoli ar y cyswllt rhwng y ddinas a Glannau Dinas Abertawe.

**5 Porth Copr**
Adeilad 47,700 troedfedd sgwâr ar gyfer swyddfeydd Gradd A ac yn gartref newydd i rai o wasanaethau Cyngor Abertawe. Mae'r gwaith eisoes ar y gweill gydag unedau bwyd a diod ar y llawr gwaelod gyferbyn â Mystwyr Abertawe.

**6 Porth Copr**
Adeilad 51,000 troedfedd sgwâr sydd wedi'i nodi ar gyfer addysg a dysgu, ond mae potensial hefyd ar gyfer swyddfeydd Gradd A.

**7 Porth Copr**
Cynllun preswyl (adeiladu i rentu) o tua 60 o fflatiau un a dwy ystafell wely gyda 15,500 troedfedd sgwâr o le ar gyfer hamdden, lletygarwch a manwerthu ar y llawr gwaelod.

**Yr Anecs, Porth Copr**
Adeilad hyblyg 7,400 troedfedd sgwâr ar gyfer manwerthu ac unedau bwyd a diod ar y llawr gwaelod, gyda fflatiau preswyl uwchben – ond mae potensial ar gyfer defnyddiau eraill.

# Saith adeilad ardderchog

**“Mae hwn yn fwy na chlwstwr o swyddfeydd: mae’n rhanbarth cysylltiedig lle mae pensaernïaeth, tirwedd a bywyd dinas yn dod ynghyd i greu ardal lle bydd pobl yn falch i weithio ynddi.”**









Diffinnir Porth Copr gan glwstwr o adeiladau gwyrdd arloesol - saith dyluniad o’r radd flaenaf gan benseiri blaenllaw'r DU. Mae pob adeilad yn enghraifft o bensaernïaeth gynaliadwy, wedi’u cysylltu gan uwchgynllun cydlynol a dull tirwedd unedig. Dyluniwyd yr adeiladau hyn i gynnig hyblygrwydd, llesiant a pherfformiad. Maent yn wydn, yn garbon isel, yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn sefyll fel datganiad gweledol o uchelgais Abertawe.


Mae adeiladu carbon isel a pherfformiad amgylcheddol wedi’u hymgorffori o’r cychwyn cyntaf, sy’n eu gwneud yn adeiladau gwydn ac addas ar gyfer y dyfodol. Mae cynlluniau llawr hyblyg yn caniatáu i sefydliadau addasu wrth iddynt dyfu, tra bod cyrtiau wedi’u plannu, toeau gwyrdd a therasau’n cynnig cysylltiadau â natur bob dydd. Dyluniwyd y lleoedd gweithio hyn ar gyfer llesiant a chreadigrwydd yn ogystal ag effeithiolrwydd.

I fuddsoddwyr, mae’r ansawdd pensaernïol hwn yn trosi yn werth parhaus - yn asedau hirdymor sy’n cadw eu gwerth ac yn gosod meincnodau newydd ar gyfer marchnad swyddfeydd Cymru. I denantiaid, mae’n golygu lleoliad blaenllaw, ymrwymiad gweladwy i gynaliadwyedd a’r math o amgylchedd sy’n denu ac yn cadw talent. Ym Mhorth Copr, mae pensaernïaeth yn fwy na chefnlen: mae’n sbardun economaidd, yn farciwr diwylliannol ac yn ddatganiad clir o fwriad.

# Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith











↑ Enghreifftiau o waith blaenorol Urban Splash





Gall ddylunio drawsnewid yr amgylchedd gwaith a throi “gwaith, gwaith, gwaith” yn gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith go iawn. Ym Mhorth Copr mae lleoedd hyblyg llawn golau yn cael eu cyfuno â deunyddiau naturiol, digonedd o le ac ystafelloedd ergonomeg i greu gweithleoedd lle mae pobl wir eisiau treulio amser. Mae hwn yn amgylchedd sydd wedi’u ddylunio ar gyfer iechyd, llesiant a chreadigrwydd, yn ogystal â chynhyrchiant.

Mae’r rhanbarth hwn yn cynnig digonedd o gyfleoedd ar gyfer cysylltiad dynol, cwrdd ar hap a chymdeithasu. Mwynhewch seibiant yn Sgwâr y Priordy, cael coffi gyda chydweithwyr neu fwynhau’r haul ar eich wyneb mewn cwrt heulog. Mae’r bensaernïaeth a’r dirwedd wedi’u dylunio i wella rhyngweithio a chydweithio.

Y tu hwnt i’r safle, mae Abertawe yn ddinas lle mae llesiant yn rhan o fywyd pob dydd. Mae traeth tywodlyd pum milltir o hyd dim ond pum munud i ffwrdd, wedi’i ategu gan dros 50 o barciau a gerddi, o harddwch botanegol Gerddi Clun i fannau agored eang Parc Singleton. Mae chwaraeon a gweithgareddau yn rhan o DNA y ddinas: o redeg a beicio i rygbi a phêl-droed, o badlfyrddio yn y bae i syrffio yn y Gŵyr, mae chwaraeon dŵr ar gael ychydig funudau o’r swyddfa. Mae Porth Copr yn cynnig model ar gyfer gweithleoedd y dyfodol lle mae gwaith, y ddinas a natur yn dod at ei gilydd yn ddi-dor.

# Bachwch y cyfle

**Buddsoddwyr/Partneriaid**
Mae Porth Copr yn fuddsoddiad o bwys ac yn rhan o adfywiad gwerth £1+ biliwn Abertawe. Mae'n cynnig graddfa ac ansawdd wedi'u hategu gan gynnig ffordd o fyw unigryw. Gyda chymysgedd o flociau sy'n barod i'w hadeiladu a phlotiau hyblyg, mae'n cyfuno pendantrwydd â'r cyfle i lunio canlyniadau. Mae'n ased gwydn, sy'n barod ar gyfer y dyfodol, ac yn ymgorffori cynaliadwyedd, wedi'i ddylunio gan benseiri sydd wedi ennill gwobrau. I fuddsoddwyr mae mynediad cynnar yn cynnig gwerth ar ddechrau cylch newydd a chyfran yn ffyniant Abertawe yn y dyfodol.

**Busnesau/Tenantiaid**
Mae Porth Copr yn cynnig mwy na phedair wal i fusnesau. Dyluniwyd gweithleoedd ar gyfer llesiant a chreadigrwydd, gyda golau naturiol, lleoedd hyblyg a dylunio bioffilig. Wedi'i ymgorffori ym mywyd y ddinas a dim ond pum munud o'r traeth, mae'r ardal hon yn cynnig caffis, diwylliant a chysylltedd ar y stepen drws. Mae'n helpu sefydliadau i ddenu a chadw talent, yn cefnogi llesiant staff ac yn sbarduno arloesi a chynhyrchiant. Mae Porth Copr yn fwy na gweithle, mae'n gymuned.

**Buddsoddwyr/Partneriaid**

## Adfywiad gwerth dros £1 biliwn ar y gweill

## Porth gwych i ganol y ddinas

## 7 adeilad newydd wedi'u dylunio gan benseiri sydd wedi ennill gwobrau

## Y safle'n barod i'r gwaith adeiladu ddechrau + blociau y gellir eu siapio

## Enillion gwydn dan arweiniad ESG

## Mantais mynediad cynnar

**Busnesau/Tenantiaid**

## Lleoliad gwych yng nghanol y ddinas ac agosat y traeth

## Lleoedd gweithio iach a hyblyg

## Caffis, cyrtiau a sgwariau bywiog

## Wedi'i dylunio ar gyfer cydweithio ac arloesi

## Trafnidiaeth a chysylltedd rhagorol

## Yn cefnogi recriwtio a chadw staff

## Crynodeb

Mae DNA Abertawe wedi'i ddiffinio gan ddidwylledd, gwydnwch a dyfeisgarwch. Ers canrifoedd mae wedi edrych tuag allan - yn ddinas wedi'i siapio gan fasnach, crefftwaith a chyfnewid. Mae ei phobl yn ddyfeisgar a mentrus, yn addasu'n gyflym a ddim yn ofni newid. Mae diwydiant ac arloesi wedi mynd law yn llaw yma erioed, o gopr a masnach i ddiwylliant a chreadigrwydd. Heddiw, mae'r un ysbryd yn ysgogi math newydd o greu: syniadau, mentrau a chymunedau sy'n adeiladu ar orffennol Abertawe tra'n llunio ei dyfodol.

# Rydym yn eich gwahodd i fod yn rhan o wireddu'r uchelgais hon - i fuddsoddi, i weithio, i gydweithredu, i ddod â'r syniadau, yr egni a'r bywyd a fydd yn helpu i lunio'r ddinas a chreu ffyniant ar gyfer cenedlaethau i ddod.





# We invite you to be part of making it happen – to invest, to work, to collaborate, to bring the ideas, energy and life that will help shape the city, and build prosperity for generations to come.

## Summary

Swansea's DNA is defined by openness, resilience and ingenuity. For centuries, it has looked outward — a city shaped by trade, craftsmanship and exchange. Its people are resourceful and enterprising, quick to adapt and unafraid of change. Industry and innovation have always gone hand in hand here, from copper and commerce to culture and creativity. Today, that same spirit drives a new kind of making: ideas, enterprises and communities that build on Swansea's past while shaping its future.

# Opportunity knocks

**Investors/Partners**
Porth Copr represents a flagship investment and forms part of Swansea's £1bn+ regeneration. It offers scale and quality underpinned by a unique lifestyle proposition. With a mix of shovel-ready blocks and flexible plots, it combines certainty with the chance to shape outcomes. Designed by award-winning architects with sustainability built in, it is a resilient, future-proof asset. For investors, early entry captures value at the start of a new cycle and a stake in Swansea's future prosperity.

**Businesses/Tenants**
For businesses, Porth Copr offers far more than four walls. Workplaces are designed for wellbeing and creativity, with natural light, flexible space and biophilic design. Immersed in city life and only five minutes from the beach, the quarter offers cafés, culture and connectivity on the doorstep. It helps organisations attract and retain talent, supports staff wellbeing and drives innovation and productivity. Porth Copr is not just a workplace but a community.

**Investors/Partners**

## £1bn+ regeneration underway

## Prime city-centre gateway

## 7 new buildings by award-winning architects

## Shovel-ready + shapeable blocks

## ESG-led resilient returns

## Early-entry advantage

**Businesses/Tenants**

## Prime city-centre location, near beach

## Healthy, flexible workspaces

## Vibrant cafés, courtyards, squares

## Designed for collaboration + innovation

## Excellent transport and connectivity

## Supports recruitment + retention


Design

# Work life balance

↓ Urban Splash work life precedents















Design can transform the working environment, turning "work, work, work" into true work–life balance. At Porth Copr, light-filled, flexible spaces are combined with natural materials, generous layouts and ergonomic interiors to create workplaces where people genuinely want to be. This is an environment designed not only for productivity, but for health, wellbeing and creativity.

The district is threaded with spaces for human connection, chance encounters, impromptu meetings and social exchange. Break out in St David's Place, grab a coffee with colleagues, or take five in a sunlit courtyard — the architecture and landscape are designed to improve interaction and collaboration.

Beyond the site, Swansea is a city where wellbeing is part of everyday life. A five-mile sandy beach lies just five minutes away, complemented by over 50 parks and gardens, from the botanical beauty of Clyne Gardens to the wide-open spaces of Singleton Park. Sport and activity are part of the city's DNA: from running and cycling to rugby and football, and from paddle boarding in the bay to surfing the Gower, watersports are never more than a few minutes from the office. Porth Copr offers a model of the future workplace where work, city and nature flow together seamlessly.

Design

# The magnificent seven

**"This is more than a cluster of offices: it's a connected district where architecture, landscape and city life come together to create a place people will be proud to work in."**










Porth Copr is defined by a cluster of innovative green buildings — seven cutting-edge designs by leading UK architects. Each building is an exemplar of sustainable architecture, linked by a coherent masterplan and unified landscape approach. These buildings are designed for flexibility, wellbeing and performance. They are resilient, low-carbon, future-proof and stand as a visible statement of Swansea's ambition.

Low-carbon construction and high environmental performance are embedded from the outset, making each building resilient and future-proof. Flexible floorplates allow organisations to adapt as they grow, while planted courtyards, green roofs and terraces provide everyday connections to nature. These are workplaces designed not only for efficiency, but for wellbeing and creativity.

For investors, this quality translates into enduring value — long-term assets that hold their worth and set new benchmarks for the Welsh office market. For tenants, it means pride of place, a visible commitment to sustainability, and the kind of environment that attracts and retains talent. At Porth Copr, architecture is more than a backdrop: it is an economic driver, a cultural marker and a clear statement of intent.




Aerial CGI from Virtual Planet

**Key**

**1 Porth Copr**
Planned as 54,500 sq of Grade A office space located at Swansea's premier business address.

**2 Porth Copr**
A further 53,800 sq ft for Grade A office at the gateway to the city centre.

**3 Porth Copr**
A mixed use building of 46,200 sq ft proposed for predominantly Grade A office space, but with potential for additional residential and education uses. Located on the main pedestrian route to the new Swansea Arena.

**4 Porth Copr**
A 51,700 sq ft building predominantly for Grade A office, but with potential for residential, health use and ground floor F&B located at the interface between the city and Swansea City Waterfront.

**5 Porth Copr**
A 47,700 sq ft Grade A office building, due to start on site in 2026. A new home for Swansea Council, including ground floor F&B, a stone's throw from Swansea Minster.

**6 Porth Copr**
A 51,000 sq ft building identified for education and learning use, but with alternative potential for Grade A office.

**7 Porth Copr**
A residential led (BTR) scheme of c60 one and two bedroomed apartments with 15,500 sq ft of ground floor leisure, hospitality and retail.

**Yr Anecs, Porth Copr**
A 7,400 sq ft of flexible space proposed as retail and F&B at ground floor, with residential apartments above – but with potential for other alternative uses.

# The masterplan

| | |
|---|---|
| **Multifunctional** | A new network of streets, courtyards and gardens within Porth Copr links seamlessly to Oxford Street, Castle Square and Coastal Park, creating spaces that serve people and nature together. |
| **Climate Adapated** | Shaded routes, rain-absorbing planting and sustainable drainage are embedded across the masterplan, helping the new business quarter stay cooler, greener and resilient to future climate pressures. |
| **Healthy** | Ffordd i'r Môr and the new central square are designed to prioritise walking, cycling and socialising, with green spaces that encourage pause, play and everyday wellbeing. |
| **Biodiverse** | Planting throughout the site, including enhanced churchyards and new pocket habitats, supports birds, pollinators and urban biodiversity in the heart of Swansea. |
| **Smart & Sustainable** | More pedestrian space, fewer cars, green roofs and sustainable materials make Porth Copr a benchmark or low-carbon, resource-efficient development in the city centre. |

**Porth Copr and Swansea's Five Principles of Green Infrastructure**

The Fford i'r môr connects City Waterfront to Porth Copr via Swansea Arena ↓




Buildings matter. Historic ones give cities character, while bold new architecture can boost confidence and change perceptions. But buildings alone are only the framework of urban life. What makes a city thrive is what happens within and around them: living, creating, trading, learning, collaborating. Regeneration is about enabling these things to flourish — creating opportunities for people to do their best work, at every scale from baristas to the boardroom.

Sitting at the junction of Swansea's civic, cultural and commercial heart, the masterplan stitches directly into the city grid, extending existing streets and creating new squares that connect seamlessly to Swansea Market, Swansea Arena and the City Waterfront via Ffordd i'r Môr. This is not an enclave, but an essential part of the city — designed to feel open, permeable and connected.

The masterplan's landscape strategy builds on a joined-up, citywide approach, with generous public realm and extensive green space. It creates a coherent network of streets and courtyards that invite people to gather, linger and interact. Sensitive design around Swansea Minster celebrates its presence at the heart of the city — enhancing its setting and ensuring the new quarter grows naturally from the city's historic core.

Porth Copr will be a place of genuine opportunity — bringing together offices, education, start-ups and new homes within a single connected neighbourhood. It will help Swansea retain and attract talent: a city known for its creativity, enterprise and the ingenuity of its people. This is a city shaped by trade and exchange, confident in looking outward yet deeply rooted in its community.

Swansea already has much to celebrate — independent businesses, culture, hospitality — but more of everything that matters adds up to a stronger, more vibrant centre. Porth Copr is a major step in delivering that future: a creative and business quarter that places jobs, ideas and commerce at the heart of a liveable city. By bringing work and services into the centre, it strengthens the high street, supports independents and builds the foundation for long-term prosperity.

Why Swansea

# City life + natural beauty
















Swansea is a vibrant, compact city where culture, food, sport, shopping, and leisure are all within easy reach. Its scale makes it walkable and human, yet it remains full of energy, from festivals on the waterfront to everyday life in its cafés, restaurants and independent shops. It is a place where work-life and social-life naturally overlap, creating an urban rhythm that is active from morning to night.

At the centre of it all is Porth Copr. This new business quarter is not an isolated enclave but an integral part of city life, woven into its streets and squares. With a city centre population set to grow, and its own residential community on site, it will be a place where work and workers are part of Swansea's growth and help support the wider city and neighbourhood economy.

Porth Copr is a place where people come together — to live, work, exchange ideas and enjoy the city. For investors, this vibrancy underpins value. City centre living is on the rise, demand for workspace is diversifying, and proximity to culture and amenities builds resilience into the market. With Porth Copr, investors are in at the start of a transformation that will define Swansea's future — and secure long-term returns.

# City on the up

Swansea has everything a city should have - and all within easy walking distance. In the search for cities that are better for people and the planet it's the gold standard. From Swansea train station to the Wales Coastal Path in 20, from work to the market, the marina or the arena in 10, from the city centre to the beach in no time. You can cycle to open country in your lunch break, swim in the sea after school or catch a concert without catching a taxi. In big cities work-life balance can be quite a slog - in Swansea it takes no effort at all.

Swansea is emerging as one of the UK's fastest-growing cities — a rising economic anchor in Wales, drawing inward investment and new opportunity. The city was ranked third in the Sunday Times list of "places on the up" in 2025, praised for its regeneration, culture and momentum.

Situated at the heart of Swansea, Porth Copr occupies a prime, city-centre site — perfectly placed to benefit from urban renewal, transit links and the densification of the city centre. As Swansea reinforces its role as a city of innovation, Porth Copr will become a focal point for capital, talent and growth.

Investors will be drawn to a city that balances ambition with liveability: strong regeneration programmes totalling over £1 billion, deepening private–public partnerships, and a vision for sustainable urbanism.

Demographically, Swansea offers a balanced population base: a sizable student community, coastal appeal for professionals, and evolving urban density. With the city's improving economic indicators and development pipeline, Porth Copr is positioned to deliver long-term value.

## 1 billion+

**regeneration programme underway across the city**

## 2 million

**people within 1 hr commuting distance**

## 600,000

**people within a 30 minute commute**

## 29,000

**students at two universities, supplying skills, innovation, and graduate talent**

## 90%

**of homes and businesses already gigabit-capable broadband**

## 5

**mile promenade and sandy beach**

## 50+

**parks and gardens, plus the Gower Peninsula (the UK's first Area of Outstanding Natural Beauty) on your doorstep**

## 3,500

**seat Swansea Arena just next door**

# City on the beach


## In an age when people can live and work almost anywhere, why not choose the City on the Beach?

Not every city has a beach — and Swansea has more front than Brighton and Barcelona put together. Of course, it's a 'nice-to-have', but it's also much more than that. In the global competition to keep the best people, attract the best jobs and deliver the best quality of life, Swansea has an ace other cities can't match. Only Swansea can boast a five-mile sandy beach that runs right in front of the city centre — Swansea is, quite literally, the City on the Beach.

City on the Beach is the shared vision of Urban Splash and Swansea Council, celebrating the city's unique combination of urban living and natural beauty. In addition to the beach, landscapes of national significance surround the city — the Gower Peninsula, the Brecon Beacons, the Tawe Valley and Pembrokeshire beyond — while at its very heart lies a compact, walkable, vibrant city core focused on health, wellbeing and sustainability.

Porth Copr is a vital part of this bigger picture. As one of seven strategic sites, it forms Swansea's main business quarter at the very heart of the city. It is directly linked to the new City Waterfront through Ffordd i'r Môr, the "Way to the Sea" — a route that joins the business quarter and city core to the beach. The regeneration goals are shared across all sites: making the most of Swansea's unique assets, enhancing public spaces, delivering sustainable, people-focused neighbourhoods, and creating value through culture, heritage and design. Porth Copr is the commercial anchor in this strategy — a modern city district embedded in urban life and deeply connected to its natural setting.

↓ Swansea waterfront




**US x Swansea**

The regeneration partnership between Urban Splash and Swansea Council begins with seven strategic sites. Together with other developments, both large and small, they form the missing pieces of a jigsaw that add up to a citywide transformation. Urban Splash's unbroken 30-year record of large-scale urban transformations brings knowledge and experience to the partnership, but being a regeneration specialist isn't about having all the answers; it's about finding the people and partners to help deliver resilient solutions that make sense, because they are solutions made in Swansea.

Porth Copr

# The office fights back





↑ Urban Splash, Tea Factory & Vanilla Factory

↓ Urban Splash Sheffield, Park Hill



**"In the age of WFH, the office must offer more. It can no longer be just desk-space but must be a space that supports, wellbeing, work-life balance and human connection."**

McKinsey, Returning to the Office
(Sept 2022)

The workplace needs to change. It must be a place where people want to be, not simply where they are told to go. That means supporting work–life balance, enabling human connection, and offering experiences that cannot be replicated at the kitchen table. The best offices today are places that buzz with ideas, draw inspiration and energy from the city, and where the ease of movement — from transport to walkable streets — makes the commute worthwhile. Access to nature is equally vital: natural light, fresh air, planted courtyards and green spaces that reduce stress and enhance wellbeing. Porth Copr is designed with exactly this in mind: lively, social, built for balance, and alive with opportunity and exchange.

This is not just a cluster of new buildings, but a living part of the city itself. Threaded into Swansea's civic fabric, creating a place that is permeable, open and connected. Cafés, hospitality and green spaces bring the public realm to life. And the mix of public, private, educational and creative uses ensures that no two days feel the same — this is a quarter where chance encounters matter, where collaboration is encouraged, and where work is enriched by the working environment.

More than a pioneering new business quarter, Porth Copr is a model for the future of work, allowing wellbeing and productivity to work in tandem. Here, work, city and life meet in a single, fluid setting. In an era when people are asking what makes the office worth leaving home for, Porth Copr provides a compelling answer.

# Back in business

## Porth Copr is Swansea's new business quarter — a modern workplace at the heart of a vibrant city, just minutes from the beach.

Porth Copr will comprise a suite of seven distinctive, sustainable buildings designed by leading UK architects, providing around 375,000 sq ft of floorspace, with potential for up to 400,000 sq ft as the masterplan evolves. The district will be centred on Grade A office and workspace, complemented by ground floor retail, leisure and hospitality, and new homes that will bring life and activity throughout the day. Together, these uses will create a flexible, future-ready neighbourhood embedded within a resilient, mixed-use city centre.

**Swansea is back in business**
PWC has named Swansea among the UK's top-performing cities, while The Sunday Times ranks it one of the best places to live in the UK. Timing is everything and the timing couldn't be better: with £1bn of regeneration already underway, Porth Copr will be the flagship of a city on the rise. Porth Copr is both an engine for future prosperity and an anchor for the *City on the Beach* vision. Focusing on sustainability and resilience as primary drivers — including advanced green building technologies, greener commutes, climate resilience and adaptable workspaces — makes Porth Copr a future-positive investment for long-term value.



## Most importantly, Porth Copr will bring creativity, learning and enterprise together in one place. Employers, educators, start-ups, creatives and institutions will rub shoulders, share ideas, and generate prosperity — prosperity made in Swansea.

Urban Splash Sheffield, Park Hill ↓



For investors, Porth Copr represents a landmark opportunity. It anchors the wider *Swansea: City on the Beach* vision, a regeneration programme that is reshaping the city centre and unlocking long-term value. Designed by some of the UK's leading architects and built to the highest sustainability standards, it will be an exemplar of resilient, people-centred and future-proof urban development.

For occupiers, Porth Copr offers a unique working environment. Seven state-of-the-art buildings are woven into the fabric of the city with public squares, bustling streets and green courtyards — all just five minutes' walk from the beach. Here, wellbeing and productivity go hand in hand, supported by outstanding connectivity, vibrant neighbourhood amenities, and the energy of a city on the rise.

**Aerial CGI from Virtual Planet →**



## Introduction

# Porth Copr is more than Swansea’s central business quarter. It is the heart of Swansea’s transformation — a place where business, innovation, learning and culture come together to create a marketplace for exchange and ideas. Rising on the site of the medieval city gates, it serves as a gateway to the future city: a vibrant mixed-use neighbourhood, embedded within the daily life of the city.

At Porth Copr, work is only part of the story. This is a place to live and work at the heart of the city — where the patterns of daily life work in harmony. Start the day with a swim or a session at the gym, meet for coffee on the way to the office, and step out at lunchtime to the beach or nearby cafés. Everything is within reach, so the city becomes an extension of your day rather than a place you leave behind. And by living in our vibrant mixed-use neighbourhood, the daily commute can disappear altogether — with more time to do the things that matter. As evening falls, the pace shifts but the energy remains — stay for dinner, meet friends, or take time to unwind. At Porth Copr, the balance between life and work feels effortless: connected, social and distinctly Swansea. In a new world where people can live where they like to and work from anywhere, why not live and work in the City on the Beach?

Swansea
City
on the
Beach

# Porth Copr: a modern business quarter, at the heart of the city, minutes from the beach.

urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council